



**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**Older People's Commissioner for Wales**

**Gweithdrefnau Prynu**

**Archebu Nwyddau a Gwasanaethau**

Rheolwr Cyfrifol	Pennaeth Cyllid ac Adnoddau
Dyddiad Adolygu Nesaf	Mawrth 2020; ac wedyn yn flynyddol
Dyddiad Adolygu Diwethaf	Mawrth 2020
Fersiwn	15.0

<b>Atodiad</b>	<b>Adran</b>	<b>Tudalen</b>
	Cyflwyniad	1
	Egwyddorion prynu	4
	Cod moeseg	5
	Pwerau dirprwyol i archebu nwyddau a gwasanaethau	6
	Archebion prynu	5
	Gweithdrefnau prynu	6
	Gweithdrefn adolygu prisiau	6
	Gweithdrefn dyfynbrisiau ysgrifenedig	7
	Gweithdrefn Dendro ffurfiol	9
	Gweithred tendr sengl	15
	Penodiadau dilynol	16
	Cytundebau fframwaith	16
	Cydweithio	16
	Cardiau prynu	18
Atodiad A	Cynllun Dirprwyo	20
Atodiad B	Ffurflen Gais Gweithred tendr sengl	21
Atodiad C	Cardiau Prynu Cymreig	23
Atodiad D	Cadarnhad o gyfundeb i gydymffurfio â'r weithdrefn hon	24
Atodiad E	Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015	25

# Gweithdrefnau Prynu'r Comisiynydd Pobl Hŷn

## Cyflwyniad

Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn datgan bod y Comisiynydd yn ymgymryd â rôl Swyddog Cyfrifyddu.

Yn ffurfiol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn rhywun y gellid ei ddwyn i gyfrif yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru am reoli'r adnoddau sydd o fewn rheolaeth y sefydliad hwnnw.

Mae hyn yn golygu bod y Comisiynydd yn gyfrifol yn bersonol ac yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am:

- Priodoldeb a rheoleidd-dra
- Gweinyddu economaidd a darbodus
- Osgoi gwastraff a gormodedd
- Defnydd effeithlon ac effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael, a
- Threfnu, staffio a rheoli'r Swyddfa

Disgwylir i'r Comisiynydd hefyd ystyried gwerth am arian o safbwynt y coffrau ehangach wrth wario arian cyhoeddus ac mae'n gyfrifol am sicrhau rheolaeth ariannol o safon uchel.

## Beth yw caffael cyhoeddus?

Caffael cyhoeddus yw prynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau gan Lywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Er mwyn sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau'n symud yn rhwydd, mae'r UE wedi cyhoeddi cyfres o gyfarwydddebau i sicrhau bod contractau'n cael eu dyfarnu'n deg, yn dryloyw a heb wahaniaethu ar sail cenedligrwydd a bod pob darpar gynigydd yn cael ei drin yn gyfartal. Cafodd cyfarwydddeb ddiweddaraf yr UE ei gweithredu yng Nghymru a Lloegr trwy Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

Mae'r Comisiynydd yn trin caffael fel y broses sy'n galluogi ei sefydliad i ddiwallu ei angen am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n rhoi gwerth am arian nid yn unig i swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ond hefyd i gymdeithas a'r economi, sydd ar yr un pryd yn achosi cyn lleied â phosibl o ddifrod i'r amgylchedd.

Pan fydd angen caffael nwyddau neu wasanaethau, bydd y rhain yn cael eu caffael yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 pan yn berthnasol ac yn defnyddio egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru.

<https://gov.wales/topics/improvingservices/better/vfm/publications/procurement-policy-statement/?skip=1&lang=cy>

Nid yw'n ymarferol i'r Comisiynydd archebu a thalu am bob eitem o wariant ei hun a gall felly ddirprwy pwerau'n ffurfiol i aelodau staff i archebu nwyddau a gwasanaethau ar ei rhan. Disgwylir y bydd aelodau staff y mae pwerau'n cael eu dirprwy iddynt

gydymffurfio â'r **egwyddorion prynu** a'r **cod moeseg** canlynol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau ar ran y Comisiynydd. Mae'r egwyddorion a'r cod yn cydnabod bod pawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n rhannu cyfrifoldeb personol i reoli arian y trethdalwyr.

Bydd y Comisiynydd yn ymdrechu i gynnal yr egwyddorion a ddisgrifir yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*, sy'n cynnwys trosolwg cynhwysfawr o'r prif egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau yng Nghymru.

Bydd y Comisiynydd yn ymdrechu i ddilyn y fframwaith polisi a geir yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* o ran caffael nwyddau a gwasanaethau.

Mae'r weithdrefn hon yn nodi sut y bydd y Comisiynydd a'i staff yn arsylwi ac yn gweithredu'r polisiâu a'r gweithdrefnau hyn wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.

### **Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus**

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, i hybu cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da gan gadw'r naw nodwedd gwarchoddedig mewn cof: oed; anabled; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; crefydd neu gred (neu ddiffyg cred); hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Rhaid i gyflenwyr ystyried yr ymrwymiad hwn yn eu holl drafodion â'r Comisiynydd.

### **Egwyddorion prynu**

Wrth archebu nwyddau a gwasanaethau rhaid i unigolion:

- Gofalu'n briodol am adnoddau'r trethdalwyr a'u defnyddio'n ofalus.
- Gochel rhag llygredd ac ymdrechu i sicrhau gwerth am arian cyhoeddus gyda sylw dyladwy i briodoldeb a rheoleidd-dra.
- Edrych ar Werth am Arian fel y cyfuniad optimwm o gostau oes gyfan o ran nid yn unig sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau ansawdd da i'r sefydliad, ond hefyd budd y gymdeithas, yr economi, a'r amgylchedd, yn awr ac yn y dyfodol.
- Defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn ddarbodus ac effeithiol, gan osgoi gwastraff a gormodedd.
- Defnyddio cystadleuaeth i gael nwyddau a gwasanaethau oni bai bod rhesymau argyhoeddiadol dros weithredu i'r gwrthwyneb.
- Caffael bob amser mewn ffordd deg ac agored a chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol, gweithdrefnol a rhyngwladol. Gweithredu ar gyngor priodol.

- Cynnal y safonau uchaf o ran gonestrwydd, uniondeb, didueddrwydd a gwrthrychedd wrth ddelio â chyflenwyr a chynnig iawn am fethiant i gyrraedd safonau cwsmeriaid y cytunwyd arnynt pan yn briodol.

### **Cod moeseg**

- Bydd yr holl staff ag awdurdod dirprwyedig i brynu ar ran y Comisiynydd yn cynnal y safonau moesegol uchaf a byddant yn sicrhau na fydd modd camddechongli dim o'u gweithredoedd.
- Ni all unrhyw staff ddefnyddio eu hawdurdod na'u swydd er mwyn enillion personol.
- Rhaid i unrhyw roddion neu letygarwch a dderbynnir gydymffurfio â'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y Polisi Teithio a Chynhaliaeth.
- Rhaid i bob aelod o staff fod heb fuddiant personol a all fod mewn gwrthdaro, neu ymddangos ei fod yn gwrthdaro, â budd pennaf y Comisiynydd.
- Os oes gan staff unrhyw berthynas â, neu unrhyw fuddiant mewn, sefydliad allanol a fydd yn rhan o broses gaffael yna rhaid iddynt ddatgan y berthynas hon a pheidio â chymryd unrhyw ran yn y broses gaffael.
- Os oes amheuaeth ynglŷn â beth sy'n cyfrif fel perthynas neu fuddiant y bydd yn rhaid ei ddatgan yn ffurfiol, dylid cysylltu â'r Prif Swyddog Gweithredol.

### **Pwerau ariannol dirprwyedig i archebu nwyddau neu wasanaethau ar ran y Comisiynydd**

Mae'r Comisiynydd wedi dirprwyo awdurdod i'r unigolion a restrir yn y tabl yn Atodiad A i archebu nwyddau a gwasanaethau ar ei rhan. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd ac o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau eu bod yn helpu gwaith y Comisiynydd.

Dim ond yr unigolion hyn all brynu nwyddau a gwasanaethau gan ddefnyddio cronfeydd y Comisiynydd a rhaid i bob pryniant gael ei wneud yn unol â'r gweithdrefnau prynu a nodir isod. Os ydych chi'n ansicr ac angen cyngor neu wybodaeth bellach, cysylltwch â'r Prif Swyddog Gweithredol neu'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau.

### **Archebion prynu**

Gan amlaf bydd angen defnyddio archeb brynu wrth archebu nwyddau neu wasanaethau. Fodd bynnag, yn achos gwasanaethau a brynir yn rheolaidd, ni fydd angen defnyddio archeb brynu. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Cyfrifiaduron, Cytundeb Lefel Gwasanaeth Rheoli Busnes, trydan, glanhau, gwasanaethau archwilio, argraffu (mewnol), cyfieithu i'r Gymraeg, band eang PSBA, storio, monitro'r cyfryngau a monitro gwleidyddol, ardrethi, rhent a thaliadau gwasanaeth.

## Gweithdrefnau prynu

Os rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i chi i archebu nwyddau a gwasanaethau ar ran y Comisiynydd rhaid i chi sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau prynu canlynol.

Yn gyntaf rhaid gwybod pa weithdrefn yw'r un gywir trwy:

- Penderfynu ar yr angen/gofyniad
- Amcangyfrif y gost
- Gan ddefnyddio'r amcangyfrif o'r gost dewiswch y weithdrefn briodol o'r tabl isod:

<b>Amcangyfrif o'r Gost</b>	<b>Gweithdrefn</b>
Hyd at £5,000 (heb gynnwys TAW)	Adolygu Prisiau (gweler tudalen 5 isod)
£5,000 - £15,000 (heb gynnwys TAW)	Dyfnbrisiau ysgrifenedig. Bydd angen dau ddyfnbris neu dri os yw'r farchnad yn un anghyfarwydd (gweler tudalen 6 isod)
£15,000+ (heb gynnwys TAW)	Proses dendro ffurfiol (gweler tudalen 7 isod)

### **Gweithdrefn Adolygu Prisiau – ar gyfer nwyddau a gwasanaethau hyd at £5,000 (heb gynnwys TAW)**

Bydd angen i chi dod o hyd i'r cyflenwr sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian am y nwyddau neu wasanaethau trwy gynnal ymarferiad adolygu prisiau.



Llunio disgrifiad o'r hyn y disgwylir i'r cyflenwr ei ddyfynnu a'i gyflenwi a diffinio eich meini prawf gwerthuso.

Er enghraifft, mae pris, ansawdd, amser i gyflenwi, cymorth ar ôl gwerthu i gyd yn ffactorau y dylech eu cadw mewn cof.



Cynnal ymarferiad adolygu prisiau. Gall adolygiadau pris gynnwys chwiliad ar y we, chwilio mewn catalogau, cyfres o alwadau ffôn neu negeseuon e-bost at ddarpar gyflenwyr. Defnyddiwch eich crebwyll i benderfynu ar y dull mwyaf priodol o adolygu prisiau a holwch y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau os oes angen cyngor arnoch.

Cofiwch fod synnwyr cyffredin yn bwysicach na dim. Ni fyddai cynnal ymarferiad adolygu prisiau manwl yn ddefnydd da o amser swyddogol yn achos pryniannau bychain ond ar gyfer eitemau costus neu anarferol byddai disgwyl ymchwil mwy trylwyr.



Bydd angen i chi gadw cofnod o'r broses adolygu prisiau a ddefnyddiwyd a'r rheswm dros brynu'r eitem gan y cyflenwr a ddewiswyd.

Gellir cadw cofnodion yn electronig neu gallant fod ar bapur. Fodd bynnag, dylent fod ar gael yn rhwydd i ddibenion rheolaeth ariannol, rhyddid gwybodaeth ac archwilio.



Os byddwch yn cael dyfynbrisiau, gwnewch nodyn o'r dyddiad a'u cadw i ddibenion gwerthuso. Cadwch gofnod o ymatebion hwyr neu ddim ymateb o gwbl. Gwerthuswch y dyfynbrisiau'n unol â'r meini prawf gwerthuso y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.



Archebwch gan y cynigydd sydd fwyaf manteisiol i chi'n ariannol. Rhaid cael archeb swyddogol i ategu archeb lafar neu drwy e-bost.



Cwblhewch archeb brynu safonol, sydd i'w chael yn R:\FINANCE\Purchase Order Form.doc a chwblhewch y daenlen R:\Finance\Purchase Orders 1819. Bydd angen cofnodi tystiolaeth o'ch adolygiad prisiau ar y ffurflen neu ei amgáu fel atodiad ychwanegol.

Bydd yn rhaid i'r archeb gael ei llofnodi gan rywun ag awdurdod dirprwyedig i wario'r arian (Atodiad A).

Dylid wedyn trosglwyddo copi caled o'r archeb awdurdodedig ynghyd â gwybodaeth ategol i'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau a fydd yn eu cadw yn y Ffeil Archebion sy'n cael ei chadw yn yr Adran Gyllid.



Ar ôl iddynt gyrraedd, bydd yn rhaid archwilio'r nwyddau a brynwyd i sicrhau eu bod yn gyflawn a bod eu hansawdd yn cyfateb i'r hyn a archebwyd. Bydd angen llofnodi'r nodyn danfon a ddaeth gyda'r nwyddau i gadarnhau'r disgrifiad ac ansawdd y nwyddau a ddanfonwyd. Gelir wedyn trosglwyddo'r nodyn danfon a ddaeth gyda'r nwyddau i'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i'w ffeilio. Os oes unrhyw broblemau â'r archeb dylid cysylltu â'r cyflenwr cyn gynted â phosibl. Dylid hysbysu Cyllid os oes problemau â chyflenwyr sy'n ailadrodd eu hunain.

### **Y weithdrefn dyfynbrisiau ysgrifenedig – ar gyfer nwyddau a gwasanaethau sy'n werth £5,000 - £15,000 (heb gynnwys TAW)**

Hysbyswch y Prif Swyddog Gweithredol neu'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau os ydych chi'n bwriadu ymgymryd ag ymarferiad caffael newydd.

Bydd angen i chi dod o hyd i gyflenwr sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian trwy gael dyfynbrisiau ysgrifenedig gan ddarpar gyflenwyr. Rhaid i chi gael o leiaf ddau ddyfynbris ysgrifenedig. Efallai y bydd angen mwy o ddyfynbrisiau (o leiaf tri) os ydych chi'n anghyfarwydd â'r farchnad.



Efallai y bydd proses dendro lawn yn briodol mewn amgylchiadau lle mae'r pryniant yn golygu risg sylweddol i enw da'r Comisiynydd, os yw'n gymhleth ac angen telerau ac amodau penodol, yn gofyn am fanyleb lawn o ofynion i egluro anghenion y Comisiynydd neu os yw o fuddiant trawsffiniol. Os mai dyna'r achos, dylech ddilyn yr adran ar dendr ffurfiol yn y canllaw hwn.



Gwahoddiadau i gynnig dyfynbris – Dylai pob gohebiaeth fod yn gyson ac egluro'n glir pa wybodaeth mae angen i gyflenwyr ei chynnwys yn eu dyfynbris.

Rhaid i geisiadau llafar cychwynol gael eu dilyn gan gais ysgrifenedig.

Mae e-bost yn dderbyniol ond dylid ei amgáu gyda'r archeb.



Meini prawf gwerthuso – dylech benderfynu ar y meini prawf y byddwch yn eu defnyddio i werthuso dyfynbrisiau **cyn** cysylltu â darpar gyflenwyr.

Ar gyfer eitemau fel caledwedd cyfrifiadurol a chyfarpar swyddfa bydd hyn fel arfer yn gymysgedd o wybodaeth am fanylebau cynnyrch, amser cyflenwi, cymorth ar ôl prynu a'r pris.

Ar gyfer gwasanaethau fel cyflogi staff asiantaeth neu ymgynghorwyr, bydd hyn yn gymysgedd o sgiliau a phrofiad perthnasol, cymwysterau, geirdaon, argaeledd a'r pris.



Dylid gwerthuso dyfynbrisiau'n unol â'r meini prawf gwerthuso y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Dylid amgáu copïau o'r dyfynbrisiau gyda'r ffurflen archebu.



Os oes contract i gael ei dyfarnu rhaid i chi hysbysu'r Prif Swyddog Gweithredol neu'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau yn gyntaf.



Hysbyswch y cynigydd sydd fwyaf manteisiol yn economaidd eich bod yn bwriadu dyfarnu contract yn amodol ar gymeradwyaeth fewnol a chytundeb ar delerau ac amodau. Rhaid i archeb lafar neu drwy e-bost gael ei chadarnhau gan archeb neu gontract swyddogol.



Cwblhewch ffurflen archeb brynu safonol, sydd ar gael yn R:\FINANCE\Purchase Order Form.doc, a chwblhewch y daenlen R:\Finance\Purchase Orders 1819. Bydd angen cofnodi tystiolaeth o'ch dyfynbrisiau ysgrifenedig ar y ffurflen neu eu hamgáu fel atodiadau ychwanegol. Bydd yn rhaid i'r archeb gael ei llofnodi gan rywun ag awdurdod dirprwyedig i ganiatáu gwariant (Atodiad A). Dylid wedyn trosglwyddo copi caled o'r archeb awdurdodedig ynghyd â gwybodaeth ategol i'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau a fydd yn eu cadw yn y Ffeil Archebion sy'n cael ei chadw yn yr Adran Gyllid

### **Gweithdrefn Dendro Ffurfiol – am nwyddau a gwasanaethau dros £15,000 (heb gynnwys TAW) nad ydynt yn dod o fewn gofynion Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015**

- Os yw gwerth y pryniant/contract dros £15,000 yna dylid gwahodd tendrau gan gyflenwyr addas yn unol â'r weithdrefn a nodir yn yr adran isod o dan y teitl "Gweithdrefn Dendro Ffurfiol".
- Mae tendrau'n dod o fewn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 os ydynt dros drothwy penodol. Mae'r trothwy cyfredol yn £181,302 (1 Ionawr 2018). **Yn**



**yr amgylchiadau hyn dylech ofyn am gyngor gan y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau, oherwydd mi all methiant i gydymffurfio â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 arwain at ddwyn achos yn yr Uchel Lys.** Yn yr amgylchiadau hyn, gellir dilyn fersiwn ddiwygiedig o'r Weithdrefn Tendro Ffurfiol (gan ystyried gofynion penodol Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015).

## **Gweithdrefn Dendro Ffurfiol**

Bydd templedi tendro safonol e.e. templedi manylebau tendr, cofnod tendrau, a thempledi gwerthuso tendrau yn eich helpu i gydymffurfio â'r gweithdrefnau hyn ac maent ar gael yn **R:\FINANCE\Procurement\Tender exercise templates.**

Dylid cadw ffeiliau tendrau ar gyfer pob contract sy'n werth mwy na £15,000 a fydd yn cynnwys yr holl ddogfennau tendro perthnasol. Gall y ffeil gael ei hadolygu gan archwilydd i sicrhau cydymffurfiaeth â holl gamau perthnasol y weithdrefn a gall gael ei hadolygu a / neu ei datgelu os ceir cwyn neu her gyfreithiol.

Disgrifir y weithdrefn dendro ffurfiol sy'n rhaid ei dilyn isod:

### **Cam 0 Ymgysylltu â'r farchnad cyn y tendr ac ymchwil cyn caffael**

- Ystyried sut y gallai'r strategaeth gaffael ddenu ystod amrywiol o gyflenwyr gan gynnwys BBChau a mudiadau trydydd sector.
- Gellid hefyd ystyried llunio rhestr ar y dechrau o gyflenwyr posibl sy'n meddu ar y sgiliau, y profiad neu'r nodweddion gofynnol.
- Gellir cyhoeddi hysbysiad cyn tendro a fydd yn galluogi cyflenwyr posibl i gwrdd â'r Comisiynydd a chynnig sylwadau ar fanylebau posibl y tendr er mwyn helpu'r Comisiynydd i ddiffinio ei gofynion ac i ddeall hyfywedd y farchnad i gyflawni'r gofynion. Cyn belled â bod unrhyw wybodaeth a rennir wedi'i chynnwys yn y tendr, yna ni fydd unrhyw gyflenwr yn cael mantais gystadleuol annheg.

### **Cam 1 Ysgrifennu'r ddogfen**

- Dylid paratoi manyleb y tendr. Argymhellir eich bod yn cynnwys manylebau sy'n seiliedig ar allbynnau, sy'n canolbwyntio ar y gofynion gweithredol/perfformio. Dylai'r fanyleb fod yn ddogfen weithredol, sy'n disgrifio'r nwyddau neu'r gwasanaethau sydd eu hangen o safbwynt y swyddogaeth a fwriadwyd a'r lefelau perfformiad gofynnol. Dylai'r fanyleb gael ei llunio trwy wneud ymchwil cyn caffael.
- Dylai'r fanyleb hefyd gynnwys cyfeiriad at Gynllun Cydraddoldeb y Comisiynydd a Safonau'r Gymraeg.
- Dylai pecyn y tendr gynnwys:
  - Llythyr neu e-bost eglurhaol

- Dogfen gwahoddiad i dendro sy'n cynnwys cyfarwyddiadau tendro, manylion o'r hyn sy'n ofynnol a chynghor ar ffurf tendrau
  - Manyleb y tendr
  - Enghraifft ddrafft o'n contract safonol / unrhyw gontractau unigol.
- Rhaid i bob cynigydd gael yr un cyfle i ennill y busnes. Felly, rhaid i bob gwahoddiad i dendro fod yn union yr un fath.
  - Gellir defnyddio cyflwyniadau a/neu gyfweiliadau i asesu rhan wahanol o'r gofynion technegol o'r tendr ysgrifenedig fel dangos cynnyrch, neu gellir eu defnyddio fel modd i addasu sgoriau'r tendr ysgrifenedig. Rhaid i fanyleb y tendr fod yn gwbl eglur ynglŷn â'r broses a'r meini prawf sydd i'w cyflawni cyn y bydd cynigydd yn cael ei wahodd i roi cyflwyniad a /neu gyfweiliad.

## Cam 2 Cyrchu cyflenwyr

- Dylai'r broses dendro fod mor agored â phosibl.
- Yn ddelfrydol dylai cynnig am dendr gael ei hysbysebu i ddenu ystod eang o ddarpar gyflenwyr. Rhaid i'r tendr gael ei hysbysebu ar GwerthwchiGymru; ond gellir defnyddio'r wasg genedlaethol neu leol, y wasg fasnach, rhestrau postio ac ati'n ychwanegol at hyn.

## Cam 3 Tendro

- Dylai'r pecyn tendro gael ei roi at ei gilydd a'i ddsbarthu i roi digon o amser i ddarpar gyflenwyr i ymateb. Mae cyfyngiadau amser penodol yn weithredol yn achos caffael sy'n uwch na'r trothwy. Ym mhob achos, dylid caniatáu'r cyfnod hwnnw i gwblhau a dychwelyd tendrau, a dylai ystyried natur y caffael a chymhlethdod y prosiect.
- Trwy GwerthwchiGymru, mae pob darpar gynigydd yn cael cyfle i gyflwyno cwestiynau am y tendr yn ddiennw; mae hyn yn galluogi pob darpar gynigydd i gael y cyfle i weld y cwestiwn a'r ateb a roddir gan y Comisiynydd.
- Bydd y ddogfen SQuID yn rhan o'r pecyn tendro ac mae'n gweithredu fel holiadur cyn cymhwyso. Bydd hyn yn caniatáu i'r Comisiynydd i holi cynigwyr am eu cymhwysedd ariannol a thechnegol a'u hanes blaenorol.
- Dylai tîm gwerthuso gael ei ffurfio sy'n cynnwys o leiaf ddau o bobl a dim mwy na chwech fel arfer. Rhaid i aelodau'r tîm fod yn barod i neilltuo digon o amser i fynd ati i gynnal gwerthusiad unigol o'r ceisiadau ysgrifenedig a mynychu cyfarfod o'r tîm gwerthuso gyda gweddill y tîm. Wrth ddethol y tîm gwerthuso dylid cadw unrhyw feysydd arbenigol a all godi mewn cof.
- Dylid cadw golwg arbennig ar becynnau tendro sy'n cael eu dychwelyd i sicrhau uniondeb. Ni ellir derbyn tendrau sy'n cyrraedd ar ôl yr amser a'r dyddiad a bennwyd yn y pecyn tendro, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol. **Wrth ddelio â thendr hwyr rhaid i chi ymgynghori â'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau.**

- E-bost trwy borth GwerthwchiGymru yw'r dull o dderbyn tendrau a ffefrir; fodd bynnag, bydd y Comisiynydd yn derbyn tendrau drwy'r post. Os yn briodol, dylid cadw pob tendr a geir, heb eu hagog, mewn man diogel, tan yr amser a'r dyddiad penodedig. Dylai tendrau gael eu hagog a'u llofnodi gan leiafswm o ddau o bobl a'u dosbarthu i'r tîm gwerthuso.

#### Cam 4 Gwerthuso

Rhaid i bob tendr a ddychwelir gael eu gwerthuso gan ddefnyddio'r un meini prawf.

- Mae gwerthuso tendrau'n rhan anhepgor o'r broses gaffael. Dyma sut mae tendrau'n cael eu cymharu â'i gilydd yn erbyn meini prawf y penderfynwyd arnynt ymlaen llaw. Asesu tendrau yn erbyn gofynion yr awdurdod yw'r rhan o'r broses gaffael sy'n cael ei herio amlaf.
- Dylai'r meini prawf a'r is-feini prawf ynghyd â'r pwysoliadau a'r is-bwysoliadau gael eu datgelu i gynigwyr ymlaen llaw a'u disgrifio yn y dogfennau caffael.
- Dylai meini prawf gwerthuso allu cysylltu'n ôl at yr wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y ddogfen gwahoddiad i dendro. Gellir pwysoli'r meysydd allweddol hyn yn ôl eu pwysigrwydd perthnasol.
- Fel arfer bydd dwy elfen i'r meini prawf gwerthuso:
  - Ansawdd
  - Pris
- Os bydd angen, bydd gallu'r tendrwr i ddarparu'r gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ystyried.
- Dull enghreifftiol o sgorio cynigion:

Tystiolaeth	Sylw	Sgoriau
<p>Mae'r cynnig yn cyrraedd y safon ofynnol ym mhob agwedd berthnasol ac mae'n rhagori ar rai neu bob un o'r prif ofynion.</p> <p>Mae'r dystiolaeth yn gyson, cynhwysfawr, argyhoeddiadol, yn berthnasol yn uniongyrchol i'r gofyniad ym mhob ffordd ac mae'n gredadwy iawn.</p>	Hyder Llwyfwr	5
<p>Mae'r cynnig yn cyrraedd y safon ofynnol ym mhob agwedd berthnasol.</p> <p>Mae'r dystiolaeth yn ddigonol (yn ansoddol), yn argyhoeddiadol, a chredadwy.</p>	Hyder	4

Mae'r cynnig yn cyrraedd y safon ofynnol yn y rhan fwyaf o agweddau perthnasol, ond mae'n ddiffygiol neu'n anghyson mewn eraill.  Mae mân fylchau yn y dystiolaeth, neu nid yw'n argyhoeddiadol i raddau llai, mae'n dangos diffyg hygrededd neu mae'n amherthnasol i'r gofyniad.	Mân bryderon	3
Nid yw'r cynnig yn cyrraedd y safonau disgwylidig mewn sawl ffordd benodol.  Mae bylchau cymedrol yn y dystiolaeth, ac nid yw'n argyhoeddiadol.	Pryderon cymedrol	2
Methiant sylweddol yn y cynnig i gyrraedd y safonau gofynnol; mae'n cynnwys diffygion sylweddol a / neu mae'n anghyson â chynigion eraill.  Bylchau sylweddol yn y dystiolaeth, nid yw'n argyhoeddiadol mewn sawl ffordd, nid yw'n gredadwy, neu mae'n amherthnasol i raddau helaeth i'r gofyniad.	Pryderon sylweddol	1
Mae'n methu'n llwyr i gyrraedd y safon ofynnol neu nid yw'n cynnwys cynnig.  Dim tystiolaeth neu dystiolaeth gamarweiniol.	Nid yw'n dderbyniol	0

- Rhaid i werthuswyr wneud nodiadau i gadarnhau eu sgoriau. Mae'r nodiadau hyn yn ddefnyddiol wrth gael ôl-drafodaeth â thendrwyr aflwyddiannus. Rhaid i unrhyw nodiadau fod yn dryloyw ac yn cydymffurfio â'r holl bolisiâu a gweithdrefnau caffael, oherwydd mi allant fod yn destun cais rhyddid gwybodaeth.
- Bydd y sgoriau'n cael eu trosi i ganrannau'n unol â'r pwysoliadau a bennwyd ymlaen llaw a'u cyfuno â'r canran o'r pris (gweler isod) i ganfod y cynigydd llwyddiannus.

### **Prisio**

- Rhaid i bob gwahoddiad i dendro nodi sut fydd y pris yn cael ei asesu.
- Yn y rhan fwyaf o ymarferion caffael, mae elfen ariannol y gwerthusiad yn cynnwys asesiad o'r pris sydd wedi'i dendro gan y cynigydd.
- Os mai'r dull pris isaf a ddefnyddir, bydd y contract yn cael ei ddyfarnu i'r cynnig rhataf. Ni fydd ansawdd y cynnig yn cael ei asesu. Er mwyn sicrhau gwerth am arian, dylai'r Comisiynydd gadw mewn cof nad y pris isaf fydd y mwyaf manteisiol yn economaidd bob amser ac na ddylai cynnig gael ei asesu ar sail pris yn unig.

- I sicrhau nad yw pris cynigion yn mynd dros y lefel gyllido, gall y Comisiynydd gynnwys manylion am y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y contract yn y fanyleb. Mae hyn yn helpu i baratoi dogfen dendro mor dryloyw â phosibl. Dylai'r gyllideb fod yn realistig ar gyfer y gwasanaethau neu'r cyflenwadau sy'n destun y tendr. Noder: Gall pennu cyllideb ar gyfer contract a fydd yn cael ei dyfarnu gyda phwysoliad uchel ar ansawdd olygu y bydd tendrau'n dod i mewn ar neu fymryn o dan y gyllideb. Dylid ystyried pennu cymhareb pris/ansawdd briodol i geisio lleihau'r risg hon.
- Mae cystadleuaeth agored heb ddatgelu cyllideb hefyd yn bosibl ond rhaid i'r dogfennau tendro ddatgan bod y Comisiynydd yn cadw'r hawl i beidio bwrw ymlaen os na cheir tendrau wedi'u prisio'n rhesymol (neu am unrhyw reswm perthnasol arall). Yn yr achos hwn, dylai pris uchaf derbynol heb ei gyhoeddi gael ei bennu gan y Comisiynydd cyn lansio'r weithdrefn dendro. Noder: Ni fyddai'r dull hwn yn caniatáu i'r Comisiynydd ddyfarnu i'r cynnig gorau, mwyaf fforddiadwy os byddai cynnig sy'n cael sgoriau uwch sy'n uwch na'r gyllideb heb ei datgelu). Yn yr achos hwn, byddai'r ymarferiad caffael yn methu.
- Gallai'r Comisiynydd fabwysiadu dull "cynnig technegol gorau sy'n fforddiadwy", lle mae'r contract yn cael ei ddyfarnu i'r cynnig â'r sgôr technegol/ansawdd uchaf sy'n fforddiadwy (h.y. o fewn y gyllideb). Mae'r gwerthusiad yn ystyried y sgôr technegol ac mae'r contract yn cael ei ddyfarnu i'r tendr â'r sgôr uchaf, ar yr amod ei fod o fewn y gyllideb ac yn cydymffurfio'n fasnachol. I wneud hyn, dylai'r Comisiynydd gynnwys geiriau i'r perwyl canlynol yn ei dogfennau caffael: *"Bydd y contract yn cael ei ddyfarnu i'r tendr technegol gorau sydd o fewn y gyllideb. Mae'r gyllideb ar gyfer y contract hwn yn £[NODER]. Bernir yn awtomatig nad yw unrhyw dendrau a geir sydd dros y gyllideb hon yn cydymffurfio â'r gofynion."*
  - Pan fydd pris cynnig yn uwch na'r lefel gyllido, ni fyddai diben mynd â'r cynigydd ymlaen oni bai bod siawns realistig o ostwng y pris i gydymffurfio â'r gyllideb. Gall rhesymau dros ostwng pris fod ar gael mewn amgylchiadau eithriadol, os yw cynigydd wedi dangos arwyddion o roi amcangyfrif rhy uchel o'r gwasanaeth neu'r personél sydd eu hangen, wedi cynnwys argostau na ellir eu hesbonio neu sy'n eithriadol o uchel, ond mewn unrhyw amgylchiadau dylai pris y cynnig fod o leiaf o fewn cyrraedd i derfyn y gyllideb (dim mwy nag 20% yn uwch).
  - Os mai'r cyflenwr a ffeirir yw'r opsiwn mwy costus (ond er hynny'n fforddiadwy), efallai y bydd angen dangos bod yr ansawdd ychwanegol neu lefel y gwasanaeth yn werth yr arian h.y. eich bod yn cael gwerth am arian. Gwerth am arian yw'r cyfuniad o gost oes gyfan ac ansawdd.

### **Cyflwyniadau a/neu gyfweiliadau**

- Bydd y penderfyniad a oes angen cyflwyniadau a / neu gyfweiliadau yn dibynnu ar yr hyn y bernir sy'n briodol yn yr amgylchiadau penodol.

- Os oes cyflwyniadau a / neu gyfweiliadau'n cael eu cynnal, dylent gael eu cynnal gan y tîm sy'n cynnal y gwerthusiad papur, ynghyd ag unrhyw arbenigwyr ychwanegol, os oes gwendidau tybiedig mewn agweddau ar eu cynnig.

### **Eglurhad**

- Pan fydd amheuron ynglŷn â'r cynnig a ffefrir hyd yn oed, sydd heb eu datrys mewn cyflwyniad neu sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyflwyniad, awgrymir eich bod yn gofyn i'r cynigydd am eglurhad pellach ar eu cynnig.
- Wrth werthuso cynnig, efallai na fydd yr wybodaeth a gyflwynwyd yn eglur neu efallai y bydd y gwerthuswyr yn teimlo bod angen rhagor o wybodaeth arnynt i'w galluogi i werthuso'r ymateb yn briodol. Mewn sefyllfa o'r fath, rhaid i ni sicrhau ein bod yn deg ac yn trin pob cynigydd yn gyfartal o ran sut rydym yn ceisio gwneud y materion hyn yn fwy eglur. Er enghraifft, os yw dau gynigydd wedi bod yn aneglur mewn ffyrdd gwahanol ynglŷn â darparu gwasanaeth, yna dylid gofyn i'r ddau egluro eu hatebion.

### **Cyfarfod o'r tîm gwerthuso**

- Pan fydd yr asesiadau annibynnol wedi'u cwblhau, dylai'r tîm gwerthuso gwrdd i gysoni unrhyw amrywiadau mewn sgoriau. Mae'n anorfod y bydd gwerthuswyr yn sgorio'n wahanol ac felly bydd angen i'r tîm gwerthuso gyfarfod i ddod i gytundeb.
- Mae newid safbwynt a rhesymu yn rhywbeth i'w ddisgwyl mewn trafodaeth gymedrol ond mae'n golygu na all tafenni sgorio gwreiddiol y gwerthuswyr fod yn arweiniad dibynadwy i'r rhesymau pam mae'r tîm wedi cyrraedd eu sgoriau consensws.
- Ar ôl y cyfarfod dylai'r tîm benderfynu ar y cyd pwy yw'r cyflenwr(wyr) a ffefrir ac (yn ddibynnol ar yr hyn a bennwyd yn y dogfennau caffael) naill ai fwrw ymlaen â'r tendrwy sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar nifer y marciau a benderfynwyd ymlaen llaw neu fwrw ymlaen â'r tendr sy'n cael y sgôr uchaf.
- Dylai cadeirydd y tîm gwerthuso sicrhau bod yr holl sylwadau gwerthuso, y cyfiawnhad, y marciau a'r newidiadau i gyd wedi'u dogfennu'n llawn a bod aelodau'r panel a'r cadeirydd yn cytuno arnynt (er enghraifft, bod pob un o aelodau'r panel gwerthuso yn llofnodi'r daflen sgoriau wedi'i chymedroli ar gyfer pob cynigydd).

### **Cam 5 Dyfarnu a rheoli cytundeb**

- Gellir rhoi gwybod am y penderfyniad i ddyfarnu contract drwy lunio llythyr dyfarnu ynghyd â'r contract. Dylai'r llythyr nodi ar ba sail y dyfarnwyd y contract arfaethedig yn y modd mwyaf cyffredinol (e.e. mai sail y contract fydd y tendr a gyflwynir ac unrhyw bwynt o gytundeb a gyrhaeddwyd trwy negodi) ac y bydd yn cael ei lofnodi a'i gadw gan y ddau barti. Pan fydd caffael yn cael ei reoli gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, dylai'r llythyr ddatgan y byddwn yn gweithredu cyfnod segur ac yn bwriadu gweithredu'r contract ar ddiwedd y

cyfnod hwnnw (gan dybio na cheir her a fydd yn golygu oedi yng nghanlyniad y caffael).

- Ym mhob achos, dylai'r contract gael ei adolygu gan swyddog priodol cyn ei lofnodi. Dylai'r contract gael ei gadw a'i ffeilio.
- Mae'n arfer da i gynnig ôl-drafodaeth i'r holl dendrwy'r aflwyddiannus. Dylai'r ôl-drafodaeth gael ei hysgrifennu gan ddefnyddio'r nodiadau a gymerwyd yn ystod y gwerthusiad ac, os yn briodol, yn ystod y cyflwyniad. Os yw'r tendrwr yn fodlon ag ôl-drafodaeth dros y ffôn, yna dylai'r ôl-drafodaeth a ysgrifennwyd gael ei thrafod a dylid nodi a ffeilio'r amser ac enw'r unigolyn.
- Hefyd mae amryw o ofynion adrodd ac ôl-drafod sy'n gymwys yn achos contractau sy'n dod o fewn cwmipas Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Y pwysicaf yw bod yn rhaid i awdurdod contractio, ar ôl iddo wneud ei benderfyniad i ddyfarnu contract, anfon hysbysiad ("llythyr cyfnod segur") at bawb a oedd yn gysylltiedig â'r broses dendro.

### **Gweithred tendr sengl**

Ar adegau prin, os nad yw tendr neu ddyfynbris cystadleuol yn ymarferol, neu os nad yw'n rhoi gwerth am arian, gellir cyfiawnhau caffael tendr sengl. Ni ellir caniatáu caffael o'r fath oni bai ei fod o dan drothwy'r Rheoliad Contract Cyhoeddus, eu bod wedi'u hawdurdodi gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael ei hysbysu.

Os bydd y Comisiynydd yn absennol neu wedi datgan buddiant yn y broses gaffael yna gall y Prif Swyddog Gweithredol gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd.

Dylai dyfarnu contractau ar y telerau hyn fod yn eithriad, yn anarferol a phrin; fodd bynnag, os oes rheswm cryf dros wneud gweithred tendr sengl, yna bydd yn rhaid iddi fod yn ysgrifenedig ac wedi cael cytundeb y Comisiynydd cyn cychwyn ar y broses gaffael.

Mae'r mathau o amgylchiadau lle gall gweithred tendr sengl fod yn briodol, yn cynnwys:

- os yw'n hysbys (yn hytrach na thybiedig) mai un cwmni neu unigolyn yn unig sydd â'r arbenigedd arbenigol penodol sydd ei angen;
- pan fyddai tendro cystadleuol yn fwy na gwerth y prosiect neu'n fwy na'r buddiannau a fyddai'n debygol o ddeillio o gystadleuaeth;
- os yw'r gofyniad yn fater o frys eithafol (er enghraifft, i waredu perygl i ddiogelwch y cyhoedd/staff); a
- lle mae dilyniant mewn gwybodaeth neu synergedd â gwaith blaenorol yn ystyriaeth holl bwysig.

Gall amgylchiadau priodol eraill godi ac os oes unrhyw amheuaeth a yw defnyddio gweithred tendr sengl yn briodol, dylid gofyn am gyngor y Prif Swyddog Gweithredol.

Dylai ffurflenni gweithred tendr sengl (Atodiad B) gael eu cwblhau a'u cyflwyno'n gyntaf i'r Prif Swyddog Gweithredol i gael eu dilysu ac yna i'r Comisiynydd i gael eu

hawdurdodi. Dylai pob gweithred tendr sengl gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Dylai staff gael eu hatgoffa'n rheolaidd o'r angen i flaengynllunio ar gyfer sefyllfaoedd caffael. Nid yw diffyg cynllunio/amser yn debygol o gyfiawnhau gweithred tendr sengl.

### **Penodiadau dilynol**

Pan fydd angen i ymgynghorydd/contractwr wneud gwaith dilynol sydd â chysylltiad uniongyrchol â contract blaenorol, a ddyfarnwyd trwy gystadleuaeth, a bod y Comisiynydd yn credu mai'r ymgynghorydd/contractwr sydd yn y sefyllfa orau i wneud y gwaith angenrheidiol, bydd ailbenodi heb dendro cystadleuol yn cael ei ganiatáu, fel arfer yn amodol ar y rheolau uchod yn ymwneud â gweithredoedd tendrau sengl a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, pan yn gymwys.

Dylai'r posibilrwydd o benodiadau dilynol gael ei ystyried ar adeg y tendr cystadleuol gwreiddiol ac, os yn briodol, dylid cynnwys darpariaeth ar gyfer opsiwn o estyniad yn y contract.

### **Cytundebau fframwaith**

Mae cytundebau fframwaith (fel y rhai a sefydlwyd gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol) yn ddull poblogaidd dros ben o gael nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn y sector cyhoeddus.

Gellir creu cytundeb fframwaith er budd un neu fwy o awdurdodau contractio.

Cyn defnyddio cytundeb fframwaith a ffurfiwyd gan awdurdod contractio arall, dylai'r Comisiynydd:

- gwirio ei bod yn gyfreithlon i'w ddefnyddio
- sicrhau bod cwmpas y nwyddau a'r gwasanaethau, a'r fanyleb ar eu cyfer, yn addas ar gyfer y gofynion;
- gwirio bod telerau'r cytundeb fframwaith a'r contract yn ôl y gofyn yn addas; a
- bodloni ei hun mai'r cyflenwyr yn y fframwaith yw'r cyflenwyr mwyaf addas yn y maes perthnasol ar gyfer gofynion y Comisiynydd.

Os yw'r Comisiynydd yn defnyddio fframwaith a sefydlwyd gan gorff cyhoeddus arall, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am gydymffurfio â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn achos unrhyw ran o'r weithdrefn sy'n cael ei chynnal gan y Comisiynydd (er enghraifft, cynnal cystadleuaeth fach).

Noder: Yn ôl y rheolau caffael cyhoeddus rhaid i gytundebau fframwaith fod rhwng un neu fwy o awdurdodau contractio ac un neu fwy o weithredwyr economaidd. Byddai dyfarnu contract penodol o dan gytundeb fframwaith a grëwyd gan sefydliad sector preifat yn cyfrif fel dyfarnu contract yn uniongyrchol a byddai hynny'n torri'r rheoliadau caffael.

### **Cydweithio**



Mae cydweithio'n ysgogydd pwysig i sicrhau gwerth am arian a rhannu gwybodaeth ac mae'n arbennig o berthnasol mewn meysydd o wariant cyffredin neu adolygiadau tebyg. Gall cydweithio arwain at fwy o gyffredinedd ac at leihau costau gweinyddol.

Pan fydd y Comisiynydd yn cydweithio â chyrff eraill i gaffael nwyddau neu wasanaethau er mwyn lleihau'r baich gweinyddol gall fod yn fanteisiol i'r grŵp i fabwysiadu'r gwerthoedd a awgrymir yng Nghanllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru:

- a. Yn achos contractau hyd at £5k: mabwysiadu arfer caffael da
- b. Yn achos contractau gwerth £5k i £25k: cael isafswm o dri dyfynbris ysgrifenedig
- c. Yn achos contractau dros of £25k: cynnal proses dendro
- d. Yn achos contractau sy'n fwy na throthwyau Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, dylid manteisio ar arbenigedd caffael proffesiynol a, phan fydd angen, cael cyngor cyfreithiol.

Dylid cael sail resymegol ar gyfer pob achos o gydweithio a dylid cadw'r pwyntiau canlynol mewn cof:

- A ydym ni'n rhannu'r un weledigaeth o'r hyn rydym yn ceisio'i gyflawni a pham rydym am weithio â'n gilydd?
- A ydym ni wedi ymrwymo mewn gwirionedd i gydweithio ac a ydym yn ymddiried yn yr unigolion a'r sefydliadau rydym yn gweithio â hwy?

Mae Mandad enghreifftiol ar gael yn **R:\FINANCE\Procurement\Project mandate.doc**.

Dylai'r Mandad neu ddogfen gyfatebol gynnwys:

- Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud
- Sut yr ydych chi'n bwriadu gweithio â'ch gilydd
- Gwahanol rolau a chyfrifoldebau sy'n cael eu dynodi i unigolion a sefydliadau penodol

Dylid cael cytundeb ysgrifenedig wedi'i lofnodi i egluro sut y bydd y gwariant sy'n codi rhwng y mudiadau sy'n cydweithio'n cael ei rannu. Gan ddibynnu ar natur y gwaith a'r lefel neu'r risg sydd ynghlwm wrth y prosiect yna efallai y bydd angen contract mwy manwl. Holwch y Prif Swyddog Gweithredol cyn bwrw ymlaen.

Dylai'r Mandad neu ddogfen gyfatebol cael eu cymeradwyo gan ddeiliad perthnasol y gyllideb.

## Cardiau prynu

Mae cardiau prynu'n debyg i gardiau credyd ond maent wedi cael eu datblygu i'w defnyddio gan sefydliadau sydd angen rheolaethau mwy llym ar gyfyngiadau gwario a gwariant. Maent yn ffordd gost effeithiol o archebu a thalu am nwyddau a gwasanaethau sydd â gwerth isel.

Mae'n bosibl defnyddio cardiau prynu i dalu am bob math o nwyddau / gwasanaethau cost isel ond maent wedi'u cyfyngu i'r eitemau canlynol:

- Aros mewn gwestai
- Tocynnau teithio
- Llogi cerbydau
- Cyflenwyr arlwyo
- Deunydd ysgrifennu swyddfeydd
- Cyrsiau a chynadleddau
- Tanysgrifiadau
- Llyfrau a chyfnodolion
- Pryniadau tramor
- Archebion rhyngwyd
- Ffonau symudol a Chyfarpar TG

Mae hyblygrwydd y cerdyn yn galluogi deiliaid y cerdyn i wneud archebion yn y ffordd fwyaf effeithiol.

I sicrhau lefel o reolaeth dros y defnydd a wneir o'r cerdyn mae cyfyngiadau gwario misol arnynt a chyfyngiad ar faint pob trafodiad. Fel mesur rheoli ychwanegol gellir blocio rhai categorïau o wariant, er enghraifft, codi arian parod.

Mae Atodiad C yn rhestru'r staff sydd â defnydd o Gardiau Prynu a'r cyfyngiadau sy'n weithredol.

Mae pob deiliad cerdyn yn cael canllawiau ar ddefnyddio'r cerdyn ac os bydd angen gellir trefnu hyfforddiant penodol.

Mae'r canllaw yn cynnwys gwybodaeth ar ddefnyddio'r cerdyn, sy'n cynnwys adolygiad ar-lein a gweithdrefnau awdurdodi, a dylid cydymffurfio â'r canllawiau bob amser.

Rhaid i bob un o ddeiliaid cerdyn gwblhau ffurflen Crynodeb o Drafodion sy'n crynhoi pob taith neu ddefnydd. Rhaid i ddeiliaid cardiau amgáu pob derbynneb, taleb neu ffurflen archebu gyda'r ffurflen hon. Dylai'r ffurflen hon gael ei chysoni'n fisol gyda datganiad y cerdyn. Os na yw deiliad cerdyn ar y Cynllun Dirprwyo fel yr amlinellwyd yn Atodiad A dylai'r ffurflen gael ei hadolygu a'i llofnodi gan reolwr llinell deiliad y cerdyn. Dylid wedyn anfon y ffurflen wedi'i chysoni at y Pennaeth Cyllid. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn adolygu holl drafodion y cerdyn prynu.

Mae deiliaid cardiau'n gyfrifol am sicrhau bod y cerdyn yn cael ei gadw'n ddiogel. Os bydd y cerdyn yn cael ei golli neu ei ddwyn, dylai'r deiliad hysbysu'r banc ar unwaith ac yna hysbysu'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau.

Rhaid i bob deiliad cerdyn lofnodi'r ffurflen sydd wedi'i hamgáu fel Atodiad D i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y Weithdrefn Archebu Nwyddau a Gwasanaethau ac yn cytuno i gydymffurfio â darpariaethau'r weithdrefn hon. Gall methiant i gydymffurfio â'r gweithdrefnau hyn arwain at dynnu'r cerdyn oddi arnynt.

**Cynllun Dirprwyo  
Atodiad A**

<b>Gwerth</b>	<b>Rôl</b>	<b>Sylw</b>
Dros £15,000	Comisiynydd*	Pob math o wariant
Hyd at £15,000	Prif Swyddog Gweithredol	Pob math o wariant
Hyd at £2,000	Rheolwr Ymgysylltu	Gwariant yn gysylltiedig ag ymgysylltu
Hyd at £2,000	Pennaeth Cyfathrebu	Gwariant yn gysylltiedig â chyfathrebu ac ymgysylltu
Hyd at £2,000	Arweinydd Hawliau a Chydraddoldeb	Dibynnol ar brosiect – rhaid bod yn Arweinydd neu'n Gyd-arweinydd Prosiect
Hyd at £2,000	Arweinydd Heneiddio'n Dda	Dibynnol ar brosiect – rhaid bod yn Arweinydd neu'n Gyd-arweinydd Prosiect
Hyd at £2,000	Arweinydd Gwasanaethau Cymunedol a Chynhwysiant	Dibynnol ar brosiect – rhaid bod yn Arweinydd neu'n Gyd-arweinydd Prosiect
Hyd at £2,000	Arweinydd y Rhaglen Diogelu a Mynediad at Gyfiawnder	Dibynnol ar brosiect – rhaid bod yn Arweinydd neu'n Gyd-arweinydd Prosiect
Hyd at £2,000	Arweinydd Iechyd a Gofal	Dibynnol ar brosiect – rhaid bod yn Arweinydd neu'n Gyd-arweinydd Prosiect
Hyd at £2,000	Arweinydd Gwahaniaethu ar sail Oedran	Dibynnol ar brosiect – rhaid bod yn Arweinydd neu'n Gyd-arweinydd Prosiect

\*\*Yn ystod cyfnodau o absenoldeb gall y Prif Swyddog Gweithredol gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd

Mae'r aelodau staff ar y Cynllun Dirprwyo hwn wedi llofnodi'r ffurflen a amgaeir fel Atodiad D i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y Weithdrefn Archebu Nwyddau a Gwasanaethau ac yn cytuno i gydymffurfio â darpariaethau'r weithdrefn hon.

Diweddardwyd ddiwethaf: Mawrth 2020

**CAIS AM WEITHRED TENDR SENGL/HEPGOR  
TENDR/GWEITHDREFNAU DYFYNBRISIAU**

Cyfeirnod: .....

**Adran 1 – i'w chwblhau gan yr unigolyn sy'n gwneud y cais**

Enw'r Cyflenwr: .....

Rhif yr Archeb: .....

Disgrifiad o'r nwyddau neu'r gwasanaethau sydd eu hangen gyda manylion penodol, gan gynnwys y cyfnod tra bydd y gwasanaeth y cael ei ddarparu (fel sy'n berthnasol):

.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....

Gwerth yr archeb/contract (gan gynnwys TAW a chludiant, os yn berthnasol):  
£ .....

Pennawd y Gyllideb/Cod

.....

Y rheswm dros wneud cais am weithred tendr sengl/hepgor gweithdrefnau tendro (gweler Gweithdrefnau ar gyfer Archebu Nwyddau a Gwasanaethau);

.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....

Enw'r unigolyn sy'n gwneud yr archeb:

.....

Swydd: .....

Llofnod: ..... Dyddiad:

.....

**Adran 2 – Cymeradwyo'r ffurflen**

Dilyswyd:

Prif Swyddog Gweithredol

Llofnod: ..... Dyddiad:  
.....

Sylwadau: .....  
.....  
.....  
.....

Awdurdodaeth:

Enw'r Comisiynydd:.....  
Llofnod: .....  
Dyddiad: .....

## Atodiad C

Bydd y cyfyngiadau gwario canlynol yn gymwys i'r staff canlynol sy'n ddeiliaid cardiau prynu:

Rôl	Cyfyngiad Misol £	Trafodiad Sengl £
Comisiynydd	5,000	3,000
Prif Swyddog Gweithredol	5,000	3,000
Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	2,000	2,000
Rheolwr Ymgysylltu	1,500	1,000
Cynorthwydd Personol y Comisiynydd*	2,000	1,500
Rheolwr Rhaglen Diogelu a Mynediad at Gyfiawnder	1,000	750
Cynorthwydd Cymorth y Rhaglen Waith	1,000	750
Cynorthwydd Gweithredol	750	750
Rheolwr Cymunedau, Llywodraeth Leol a Chydraddoldeb	1,000	750
Rheolwr Heneiddio'n Dda yng Nghymru	2,000	750

\*Dim ond y cerdyn hwn sydd wedi'i alluogi i godi arian parod

Gall y terfynau hyn gael eu haddasu gan y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i ddiwallu unrhyw anghenion BCP neu anghenion gweithredol eraill. Bydd rhaid cael awdurdodaeth gan y Prif Swyddog Gweithredu neu'r Comisiynydd cyn gwneud unrhyw newidiadau.

**I'W LOFNODI GAN STAFF SYDD WEDI'U CYNNWYS AR Y CYNLLUN  
DIRPRWYO NEU SY'N DDEILIAID CARDIAU PRYNU**

Rwyf wedi darllen a deall y Weithdrefn Archebu Nwyddau a Gwasanaethau ac yn cytuno i gydymffurfio â darpariaethau'r weithdrefn hon.

Llofnod.....

Dyddiad.....



**Gweithdrefnau dyfarnu sydd ar gael o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015**

Os yw Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn gymwys, (h.y. contractau dros £189,330) rhaid dilyn un o bum gweithdrefn ddyfarnu. Dylid nodi'r eitemau canlynol:

- Nid oes dim cyfyngiadau ar y defnydd o'r gweithdrefnau agored a chyfyngedig.
- Fodd bynnag, gellir defnyddio'r gweithdrefnau deialog gystadleuol, cystadleuol â negodiad a phartneriaeth arloesol mewn amgylchiadau cyfyngedig penodol yn unig.
- Mae'r weithdrefn agored yn galluogi caffael un cam, tra mae gan y gweithdrefnau eraill gam rhestru byr/dethol cyn i dendrau gael eu cyflwyno.
- Mae cyfyngiadau isafswm amser yn gymwys i wahanol gamau o'r weithdrefn.

*Gweithdrefn agored*

- Gall pob parti â diddordeb gyflwyno tendr.
- Ni chaniateir negodi a chynigwyr.
- Yn addas ar gyfer caffael syml lle mae'r gofyniad yn syml a bydd tendrau'n hawdd i'w gwerthuso.

*Gweithdrefn gyfyngedig*

- Gall partiön â diddordeb gyflwyno datganiad o ddiddordeb, ond dim ond y rhai hynny sy'n ateb meini prawf cyn-cymhwyso/dethol yr awdurdod contractio fydd yn cael eu gwahodd i dendro. Dylai meini prawf dethol gyfeirio'n unig at allu technegol a phroffesiynol y cynigwyr a'u safle ariannol ac economaidd a seiliau penodol i anghymhwyso (h.y. dylent asesu'r cynigydd ac nid cynigion neu gais y cynigydd).
- Rhaid gwahodd isafswm o bum cyflenwr i dendro oni bai bod llai na hynny o ymgeiswyr addas wedi gwneud cais a bod y rhain yn ddigon i sicrhau cystadleuaeth ystyrion (hynny yw, o leiaf dau).
- Ni chaniateir negodi â chynigwyr.
- Dewisir yr opsiwn hwn yn aml pan fydd awdurdod contractio eisiau cyn-cymhwyso cyflenwyr ar sail eu sefyllfa ariannol a'u gallu technegol neu broffesiynol er mwyn lleihau nifer y cynigwyr a all gyflwyno cynigion.

*Gweithdrefn deialog gystadleuol*

- Bydd partiön â diddordeb sy'n ateb meini prawf dethol yr awdurdod yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn deialog. Nod y ddeialog yw datblygu un neu fwy o atebion i ddiwallu anghenion yr awdurdod contractio.

- Rhaid i leiafswm o dri chyflenwr gael eu gwahodd i gymryd rhan yn y ddeialog (oni bai bod llai o ymgeiswyr wedi gwneud cais a bod y rhain yn ddigon i sicrhau cystadleuaeth ystyrion).
- Pan fydd un neu fwy o atebion addas wedi'u canfod, bydd y cam dialog yn dod i ben a bydd yr awdurdod yn gofyn i gynigwyr gyflwyno tendrau terfynol.
- Mae'r awdurdod yn gwerthuso'r tendrau ac yn dewis yr enillydd yn seiliedig ar y meini prawf dyfarnu.

#### *Gweithdrefn gystadleuol â negodi*

- Mae'r dethol yn seiliedig ar gynigwyr sy'n ymateb i'r hysbyseb OJEU a dim ond y rhai hyn fydd yn cael eu gwahodd i gyflwyno tendr cychwynnol am y contract.
- Gall yr awdurdod contractio agor negodiadau â thendrwy i chwilio am gynigion gwell.

#### *Partneriaeth arloesi*

- Sefydlu partneriaeth strwythuredig i ddatblygu cynnyrch, gwasanaeth neu waith arloesol ac wedyn prynu'r cyflenwadau, gwasanaethau neu waith sy'n deillio o hynny, ar yr amod eu bod yn cyfateb i'r lefelau perfformiad a'r costau y cytunwyd arnynt.

#### **Gofynion allweddol ychwanegol ar gyfer caffael sy'n dod o fewn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015**

- Rhaid i gontractau sy'n dod o fewn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 gael eu hysbysebu ar lefel yr UE. Rhaid i hysbysiad, a adwaenir fel OJEU neu hysbysiad contract, gael ei gyhoeddi yn yr Official Journal of the European Union (OJEU). Rhaid i'r hysbysiad fod mewn ffurf safonol, sydd ar gael ar wefan SIMAP yr UE (<http://simap.ted.europa.eu>).
- Gellir hysbysebu contractau hefyd ar GwerthwchiGymru, sef y porth hysbysebu cenedlaethol lle gall sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi eu cyfleoedd. Pan fydd awdurdod contractio yn cyhoeddi hysbysiad ar GwerthwchiGymru, gofynnir iddynt ddewis a yw'n wefan (o dan y trothwy) neu hysbysiad OJEU. Mae pob hysbysiad OJEU yn cael eu hanfon ymlaen yn awtomatig at OJEU i'w cyhoeddi a chânt eu cyhoeddi hefyd ar GwerthwchiGymru.
- Rhaid cynnig mynediad electronig llawn heb gyfyngiad, yn ddi-dâl at y dogfennau caffael o ddyddiad cyhoeddi hysbysiad y contract. Gan fod "dogfennau caffael" yn cynnwys unrhyw ddogfen a gynhyrchwyd neu y cyfeirir atynt i ddisgrifio neu i benderfynu ar elfennau o'r caffael neu'r weithdrefn, mae hyn yn golygu y dylid paratoi manyleb y tendr, y gwahoddiad i dendro ac amodau arfaethedig y contract ymlaen llaw.

- Mae cydymffurfiaeth â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn golygu y bydd y Comisiynydd yn penderfynu ac yn datgelu sut y bydd y Comisiynydd yn asesu cynnig buddugol cyn y bydd y Comisiynydd yn cael unrhyw wybodaeth gan y cynigwyr.
- Os bydd penderfyniad ar ddyfarniad i gaffael wedi'i reoleiddio'n cael ei herio ar sail diffyg tryloywder, bydd y llys yn edrych ar y rhesymau pam fod y sgoriau wedi'u dyfarnu. Os na allwn ni egluro pam yr oeddem wedi rhoi'r sgoriau a ddyfarnwyd, yna ni fyddwn yn cyrraedd y safon ofynnol o ran tryloywder ac mae'n debygol y bydd y penderfyniad i ddyfarnu'r contract yn cael ei roi o'r neilltu os caiff ei herio.
- Ar ôl i ni wneud y penderfyniad i ddyfarnu contract, rhaid i ni anfon hysbysiad ("llythyr cyfnod segur") at bawb sy'n gysylltiedig â'r broses dendro. Rhaid i hyn gynnwys gwybodaeth ragnodedig benodol sy'n cynnwys gwybodaeth am y meini prawf dyfarnu, y sgoriau a'r cynigydd buddugol. Rhaid i ni wedyn ganiatáu cyfnod segur rhwng anfon yr hysbysiad allan a llofnodi'r contract. Mae hwn fel arfer yn gyfnod o ddeng niwrnod calendr, sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl anfon y llythyr cyfnod segur ac yn dod i ben ar ddiwrnod gwaith, pan na allwn lofnodi'r contract â'r cynigydd buddugol.

### **Gweithredoedd tendrau sengl o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015**

- Mae Rheoliad 32 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn caniatáu i awdurdodau contractio i ddefnyddio gweithdrefn negodi i gynnig contract, os yw'r awdurdod contractio'n credu nad oes cyflenwyr eraill am resymau technegol neu am fod y cynnig yn ymwneud â hawliau eiddo deallusol. Mae ar gael hefyd os, am resymau o frys eithafol sy'n deillio o ddigwyddiadau na ellid eu rhagweld, nad oes modd cydymffurfio â chyfyngiadau amser y gweithdrefnau dyfarnu eraill.
- Bydd angen i'r Comisiynydd fod yn **gwbl bendant** nad oes dewis arall rhesymol ar gael, ac nad yw diffyg cystadleuaeth yn ganlyniad cyfyngu'n artiffisial ar y paramedrau caffael. **Dylid cael cyngor cyfreithiol cyn dibynnu ar Reoliad 12.**
- Mae Rheoliad 32(9) i Reoliad 32(12) hefyd yn cynnwys darpariaethau penodol ar ddefnyddio'r weithdrefn negodi heb gyhoeddi hysbysiad contract ymlaen llaw ar gyfer gwaith/gwasanaethau newydd sy'n cynnwys ailadrodd gwaith/gwasanaethau tebyg a roddwyd i'r cyflenwr. Mae Rheoliad 72(1)(b) hefyd yn rhoi sail i addasu contractau yn ystod eu tymor i gynnwys gwaith, gwasanaethau neu gyflenwadau ychwanegol gan y contractwr gwreiddiol.

### **Canlyniadau torri amodau Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015**

- Os yw Llys yn fodlon bod amodau'r rheoliadau caffael wedi'u torri, gall orchymyn bod penderfyniad yr awdurdod yn cael ei roi o'r neilltu neu ddyfarnu iawndal i'r hawlydd am ei fod wedi colli cyfle.
- Os yw'r contract eisoes wedi'i lofnodi, bydd y llys yn gallu datgan ei fod yn ddi-rym mewn amodau penodol, dirwyo'r awdurdod a dyfarnu iawndal. Mae'n ofynnol bod Llys yn gosod dirwy os yw'n dyfarnu bod contract yn ddi-rym. Er nad oes tariff rhagnodedig ar gyfer dirwyon, mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn datgan bod yn rhaid i ddirwyon fod yn "effeithiol, cymesur a gwrthwynebol".